



STRATEGY
# BUDDSODDI ADDYSG
CAERDYDD 2024 - 2033





CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

CARDIFF
CAERDYDD




Ysgol Hamadryad





# Rhagair

Mae Caerdydd yn falch o'i statws fel 'Dinas sy'n Dda i Blant', gan gael ei chydnabod am flaenoriaethu hawliau ac anghenion ein plant a'n pobl ifanc a chadw eu hanghenion wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Cyngor Caerdydd yn ddiwyro yn ei ymroddiad i sicrhau mynediad teg i addysg, gan adael dim un plentyn ar ôl. Ein hymrwymiad yw creu amgylcheddau diogel, cynhwysol ac ysgogol lle gall pob plentyn, waeth beth fo'i gefndir, ffynnu a chael cyfle cyfartal i lwyddo.

Fel prifddinas amrywiol a bywiog, mae Caerdydd yn cynnig cyfleoedd ac adnoddau toreithiog i gefnogi ac ysbrydoli ei hieuenctid. Dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r cyngor wedi cydweithio ag ysgolion a phartneriaid, gan arwain at welliannau parhaus mewn addysg ledled y ddinas.  Rydym yn agosach nag erioed at wneud pob ysgol yn ysgol dda, gyda chanlyniadau arolygu cryf a chyrhaeddiad addysgol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Datblygwyd Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024-2033 gyda mewnbwn gan amrywiaeth o randdeiliaid gyda phlant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o lywio'r cyfeiriad o'r cychwyn cyntaf. Mae'n adeiladu ar ymdrechion blaenorol i wella system ysgolion y ddinas a gwella'r amgylcheddau sydd eu hangen ar ysgolion i gefnogi dysgu.

Mae'n ailddatgan yr ymrwymiad i ddarparu system addysg gynhwysol sy'n sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr, gan feithrin datblygiad cymunedol a ffyniant economaidd.

Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfleoedd i ddylunio ysgolion arloesol ac ailystyried y cyfleusterau presennol. Er mwyn trawsnewid addysg yn system rymusol, mae angen i ysgolion ddefnyddio cyfleusterau'n greadigol a hyblyg, ynghyd ag amgylchedd digidol wedi'i gynllunio i gefnogi dysgwyr a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith. Yn gyson â Chenhadaeth Addysg Genedlaethol y Gweinidog Addysg, anogir ysgolion Caerdydd i weithredu fel sefydliadau eangfrydig sy'n canolbwyntio ar y gymuned sy'n ffurfio rhan allweddol o'u cymunedau ysgol unigol a chysylltiedig i sicrhau'r gwerth mwyaf i bawb.

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i fuddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd a gwella'r rhai presennol i wella canlyniadau a phrofiadau addysgol.  Bydd y trawsnewidiad hwn yn cynnwys mewnbwn gan bobl ifanc a chymunedau, gan sicrhau cysondeb â'u hanghenion a'u dyheadau, gyda ffocws penodol ar gefnogi plant agored i niwed o'r blynyddoedd cynnar trwy addysg uwch ac i'r gweithlu.




Y Cynghorydd  Huw Thomas,
Arweinydd, Cyngor Caerdydd



Y Cynghorydd Sarah Merry,
Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau

# Cyflwyniad




Mae Cynllun Corfforaethol ‘Cryfach, Tecach, Gwyrddach’ Cyngor Caerdydd yn ymrwymo i ddatblygu economi Caerdydd a gwneud y ddinas yn lle gwych i drigolion, gweithwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr.

Fel y nodir yn ein strategaeth Addysg ‘Caerdydd 2030’, mae’r Cyngor a’n partneriaid yn glir bod addysg ar frig blaenoriaethau’r ddinas. Cyflawnir hyn drwy ffocws parhaus ar wella a buddsoddi mewn addysg a helpu pobl ifanc, yn arbennig y rheini o gymunedau difreintiedig, i mewn i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Dros y ddegawd ddiwethaf mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i wella’n barhaus ansawdd ac effeithiolrwydd system addysg Caerdydd. Rydym yn cydnabod bod pob ysgol a man dysgu yng Nghaerdydd yn rhan o gyfoeth o bartneriaid cymunedol sy’n cefnogi’r gwaith o ddarparu cyfleoedd cynhwysol ac ysgogol i sicrhau bod ein plant a’n pobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Profwyd hyn dros y blynyddoedd diwethaf drwy nifer o lwyddiannau, gan gynnwys buddsoddi mwy na £460 miliwn i gyflawni’r canlynol:

- Buddsoddiad mewn ysgolion sydd wedi sicrhau digon o leoedd uwchradd drwy’r cyfnodau derbyn mwyaf poblogaidd.
- Mae pob adeilad cyflwr D wedi cael ei ddisodli neu rai newydd wedi eu comisiynu / wrthi’n cael eu cyflawni.
- Mae nifer cynyddol o leoedd ADY arbenigol cyfrwng Cymraeg a Saesneg wedi’u darparu trwy ehangu sawl ysgol arbennig a sefydlu mwy o Ganolfannau Adnoddau Arbenigol (CAAau).
- Darpariaethau cynradd newydd wedi eu datblygu i wasanaethu ardaloedd preswyl newydd a gyflawnir drwy’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
- Mae model iaith ddeuol newydd wedi’i ddatblygu ac mae bellach yn gweithredu ar un o’r safleoedd CDLl cyntaf.




Gwyddom nad oes unrhyw ysgol yn gweithredu'n hollol annibynnol ar ysgolion lleol eraill, eu teuluoedd na'u cymunedau. Mae pob un wedi'i phlethu i wead ein cymdeithas a'i hamgylchedd lleol. Mae gan bob un y potensial i elwa o'r wybodaeth ddynol a'r seilwaith ffisegol yn ei hardal a'r holl gyfleoedd sy'n deillio o fod yn rhan o brifddinas amrywiol a bywiog yng Nghymru. Dyna pam ei bod yn hanfodol sicrhau bod adnoddau a seilwaith addysg ledled ein dinas wedi'u trefnu'n effeithiol mewn system gydlynol sydd wedi'i chynllunio i sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl a sicrhau'r gwerth gorau i'n dysgwyr.

Mae Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033 yn nodi'r cyfeiriad strategol i gefnogi proses effeithiol ac effeithlon o drefnu'r system addysg yng Nghaerdydd. Mae'n cyd-fynd yn glir â'r genhadaeth genedlaethol a'n blaenoriaethau lleol datganedig sy'n benodol i wella a buddsoddi mewn addysg yng Nghaerdydd. Mae wedi cael ei hystyried gyda phlant a phobl ifanc a phartneriaid Cyngor Caerdydd a'i chyd-ddatblygu gyda gweithwyr addysg proffesiynol profiadol, gan gynnwys Consortiwm Canolbarth y De a Phenaethiaid.

> *"Mae'r holl blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yn cael addysg o safon uchel ac yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a rhinweddau sy'n eu galluogi i fod yn llwyddiannus yn bersonol, yn economaidd gynhyrchiol ac yn ddinasyddion byd-eang"*
>
> *(Gweledigaeth Caerdydd 2030)*

# Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024-2033

Mae Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024-2033 yn nodi gweledigaeth, gwerthoedd a nodau strategol trosfwaol ar gyfer y system addysg yng Nghaerdydd a fydd yn siapio ein gwasanaeth dros y naw mlynedd nesaf.

## Y WELEDIGAETH

**Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033**
**Byddwn yn Uchelgeisiol, Teg, Cynaliadwy**

## Y GWERTHOEDD

Rydym wedi ymrwymo i:

- Godi dyheadau a disgwyliadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd.
- Gwella canlyniadau addysgol i'n dysgwyr, gan sicrhau'r gwerth gorau i'n dinas.
- Cefnogi cyfle cyfartal, gan hyrwyddo a dathlu llwyddiant a chyfleoedd bywyd pob plentyn a pherson ifanc.
- Parchu hawliau pob plentyn a pherson ifanc trwy wrando ar eu barn a'u cynnwys yn weithredol ym mhopeth a wnawn.
- Galluogi cydweithio rhwng adrannau a phartneriaid i rannu gwybodaeth, ymarfer a dysgu.
- Hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig a defnyddio'r Gymraeg yn llawer ehangach.
- Blaenoriaethu buddsoddiad sy'n gwneud defnydd da o adnoddau ariannol cyfyngedig i sicrhau'r effaith addysgol fwyaf posibl.
- Parchu a diogelu ein hamgylchedd naturiol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc nawr ac ar i'r dyfodol.

## NODAU STRATEGOL

Drwy'r strategaeth hon byddwn yn cyflawni darpariaeth sy'n Uchelgeisiol, Teg a Chynaliadwy.

### Byddwn yn Uchelgeisiol drwy:

- wella deilliannau addysg drwy ein buddsoddiad
- gweithio mewn partneriaeth ag addysg bellach, addysg uwch, Llywodraeth Cymru, a chyflogwyr tuag at gynnig ôl-16 gwell sy'n alinio'n well â dyheadau dysgwyr

### Byddwn yn Deg drwy:

- ddarparu cydbwysedd a dosbarthiad gwell o leoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg lleol, cynhwysol a hygyrch
- cynnig addysg gynhwysol ym mhob ysgol gyda nifer fwy a gwell dosbarthiad o leoedd arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n cyd-fynd â'r angen

### Byddwn yn Gynaliadwy drwy:

- gyflawni seilwaith addysg effeithiol, effeithlon a hyblyg sy'n cefnogi addysgu, dysgu a llesiant da i ddisgyblion a staff
- meithrin ymagwedd Ysgolion Bro i ehangu cyfleoedd i'n plant, pobl ifanc a theuluoedd

# Yr Achos dros Newid yng Nghaerdydd

Yng Nghaerdydd rydym yn wynebu'r heriau canlynol:

- Newidiadau demograffig sylweddol gyda chyfraddau geni amrywiol ac amrywiaeth gynyddol ar draws ein dinas
- Llawer mwy o alw am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dim digon o leoedd mewn ysgolion arbenigol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY cymhleth yn y ddinas
- Mae adeiladau addysg wedi cael eu heffeithio gan ddegawdau o danfuddsoddi gyda rhannau helaeth o'r ystâd mewn cyflwr gwael
- Anghydraddoldeb mynediad i ddarpariaeth gan gynnwys mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd ôl-16
- Mynd i'r afael â lles ac iechyd meddwl pobl ifanc wedi'r pandemig
- Heriau recriwtio a chadw'r gweithlu addysg ar bob lefel
- Defnydd aneffeithiol o gyfleusterau yn ein hadeiladau addysg i wasanaethu anghenion ac uchelgeisiau cymunedol ehangach
- Mae llawer o adeiladau addysg yn aneffeithlon i'w rhedeg ac nid ydynt yn cefnogi ein hymrwymiadau lleihau carbon

Trwy Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033 rydym am sicrhau bod ein system addysg yn effeithiol wrth ddarparu cyfleoedd addysg teg a chryf mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy, wedi'u cynnig mewn cyfleusterau hyblyg sy'n cefnogi mwy o gydweithio gyda, ac ar gyfer, cymunedau ledled y ddinas.

> *"Dylid ystyried plant a phobl ifanc yn ddemograffig pwysig ac allweddol oherwydd, pan fyddan nhw'n tyfu i fyny, nhw fydd yr oedolion sy'n gwneud penderfyniadau, ond hefyd byddwn ni'n byw gyda phenderfyniadau'r cenedlaethau o oedolion o'n blaenau."* *(Aelod Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*



# Beth mae ein rhanddeiliaid yn ei ddweud wrthym?

## PWY YW EIN RHANDDEILIAID?

**Arweinwyr addysg a'r gweithlu ysgolion**

- Penaethiaid
- Llywodraethwyr
- Staff
- Consortiem Canolbarth y De
- Darparwyr Ôl-16
- Darparwyr Addysg Uwch
- Undebau

**Cwsmeriaid**

- Plant a Phobl Ifanc
- Teuluoedd
- Cymunedau

**Partneriaid**

- Aelodau Etholedig
- Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaeth Gatholig
- Gwasanaethau cysylltiedig eraill gan gynnwys Gofal Plant, Gwasanaethau Plant, Cymunedau, Cyflogwyr, Iechyd, Trafnidiaeth

Daeth Dylanwadwyr Caerdydd, grŵp o bobl ifanc sy'n mynychu Ysgolion Caerdydd, at ei gilydd i ddysgu am gynllunio trefniadaeth ysgolion a'r buddsoddiad yn ysgolion Caerdydd. Gwnaethant nodi'n glir:

- **Dylai addysg yng Nghaerdydd fod yn deg ac yn gynhwysol**
- **Dylai dysgu ganolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n bwysig i ni gyda mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol i adlewyrchu bywyd go iawn y tu hwnt i'r ysgol**
- **Mae lles da yn hanfodol, hebddo, ni allwn ddysgu'n dda**
- **Nid oes 'planed B' a dim 'coeden arian', mae cynaliadwyedd yn hanfodol**
- **Dylai ysgolion ganolbwyntio ar y gymuned i gynyddu cyfleoedd i bawb**
- **Siaradwch â phobl ifanc yn fwy i'n deall ni'n well**

> *"Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau lleol oherwydd rydyn ni'n rhan o'r ddinas ac mae'n annheg os mai dim ond oedolion sy'n gwneud y penderfyniadau. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael effaith ar ein dyfodol felly mae'n hanfodol ein bod yn cael dweud ein dweud."*
>
> *(Aelod Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*



> “…mae angen i ni wrando ar ein gilydd a dod â’r holl safbwyntiau at ei gilydd i gael y canlyniad gorau sy’n gweithio i bawb.”
>
> *(Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*

Rhannwyd barn Dylanwadwyr Caerdydd gyda’n hoedolion-randdeiliaid, ochr yn ochr ag ystod o ddata gwybodaeth ynghylch y sefyllfa bresennol ledled y ddinas. Cafwyd meysydd sylweddol o gytundeb a chodwyd rai materion ychwanegol hefyd. Dywedodd ein hoedolion-randdeiliaid wrthym:

| BETH SY’N GWEITHIO’N DDA | BETH SYDD DDIM YN GWEITHIO’N DDA AC SYDD ANGEN NEWID |
|---|---|
| ▲ Lleoedd digonol ar draws y ddinas | ▼ Anghydraddoldeb mynediad i leoedd ysgol lleol sy'n ateb y galw |
| ▲ Mae darpariaeth ADY wedi cynyddu | ▼ Nid yw'r cynnydd yn y ddarpariaeth wedi ateb y galw ac mae mynediad at ddarpariaeth yn anghyfartal |
| ▲ Lefelau buddsoddi uchel | ▼ Nid yw buddsoddiad wedi bod o fudd i bob ysgol, mae problemau cyflwr yn parhau, gydag allyriadau carbon uchel cysylltiedig |
| ▲ Mae Caerdydd yn denu llawer o weithwyr addysg proffesiynol sy'n awyddus i fyw yn y brifddinas | ▼ Mae'r system yn aneffeithlon, sy'n gwaethygu pwysau ariannol |
| ▲ Mae lledaeniad addysg Gymraeg wedi gwella | ▼ Anghydraddoldeb mynediad i addysg Gymraeg |
| ▲ Mae Addewid Caerdydd wedi cynyddu mynediad at ystod ehangach o opsiynau ôl-16 | ▼ Anghydraddoldeb mynediad at gwricwlwm ôl-16 eang |
| ▲ Mae Caerdydd yn brofiadol ac yn gallu cefnogi ei chymunedau amrywiol | ▼ Mae angen mwy o gefnogaeth i les ac iechyd meddwl pobl ifanc |
| ▲ Mae mwy o wariant ar asedau ar draws y ddinas wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflwr yr ystâd | ▼ Nid yw rhannau o'n hystâd yn addas at y diben |



# Sut y byddwn yn sicrhau newid ac yn mesur llwyddiant?

## UCHELGEISIOL

## 1. Gwella canlyniadau addysg drwy ein buddsoddiad

### PAM?

Mae creu system addysg ysbrydoledig ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc yn greiddiol i'r penderfyniadau a wneir gan Gaerdydd. Mae unrhyw newid i sefydliad addysg a/neu fuddsoddiad ar raddfa fawr yn rhoi cyfle i gefnogi ysgolion i wella canlyniadau i bob person ifanc ledled y ddinas trwy ddatblygu strwythurau neu gyfleusterau newydd ar gyfer ysgolion a'u cymunedau, ynghyd â chyd-fynd â strategaethau cenedlaethol a lleol.

Bydd Caerdydd yn cefnogi ysgolion i ddatblygu gweledigaethau addysg pwrpasol a fydd yn rhan annatod o gynlluniau gwella ysgolion gan ganolbwyntio ar ysbrydoli dysgwyr i gyflawni eu gorau. Bydd y gweledigaethau hyn yn cofleidio'r pedwar diben fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru yn ogystal ag adeiladu ar y cynnig lleol a thynnu ar yr adnoddau sydd ar gael ar draws y ddinas. Bydd ein gwaith gyda disgyblion, staff a chymunedau yn rhan o werthusiad parhaus a ddefnyddir i lywio dyluniad adeiladau newydd a chynlluniau ad-drefnu ar raddfa fwy.



## SUT?

Datblygu gweledigaethau pwrpasol ar gyfer ysgolion newydd yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.

Dylunio ysgolion/cyfleusterau newydd i wella profiad dysgwyr trwy greu mannau dysgu ysbrydoledig, diogel sy'n meithrin dysgu o ansawdd uchel a lles cadarn.

Datblygu cynigion newid trefniadaeth ysgolion mewn partneriaeth ag ysgolion sy'n cefnogi esblygiad system sy'n ddiduedd, yn deg ac yn sicrhau gwerth am arian fel bod pob dysgwr yn cael hawl i addysg wych.

Cynyddu llais staff, disgyblion a'r gymuned i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn buddsoddi yn ein gweledigaeth a'n dyhead.

## SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

Mae gweledigaethau ysgolion newydd ac ysgolion newydd eu sefydlu yn anelu at gyflawni'r gorau i ddysgwyr a chymunedau ehangach.

Profiadau disgyblion gwell mewn ysgolion fel y gwelir drwy adborth llais y disgybl.

Gwell parodrwydd at gyflogaeth fel y gwelir trwy adborth cyflogwyr a data cyrchfan.

Cyfleoedd gwell i bawb sy’n gadael yr ysgol a’r coleg fel y gwelir trwy olrhain cyrchfannau yn yr hirdymor.



> *“Mae busnesau'n aml yn esblygu'n gyflymach na'r systemau rydyn ni'n eu profi mewn ysgolion, mae angen i ni feddwl yn fwy blaengar i fod yn barod ar gyfer bywyd ar ôl ysgol.”*
>
> *(Aelod Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*

## UCHELGEISIOL

# 2. Gweithio mewn partneriaeth ag addysg bellach, addysg uwch, Llywodraeth Cymru, a chyflogwyr tuag at gynnig ôl-16 gwell sy'n alinio'n well â dyheadau dysgwyr

### PAM?

Mae cynnig ôl-16 Cymraeg a Saesneg amrywiol a chyffrous ar draws y ddinas, sy'n paratoi pobl ifanc i symud ymlaen i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant gyda'r sgiliau cywir i gefnogi sectorau twf o fewn ein heconomi ddeinamig a newidiol. yn allweddol i ddatblygiad a ffyniant pobl ifanc Caerdydd yn y dyfodol.

Trwy ein buddsoddiad, y dyhead yw adeiladu ar lwyddiant y Rhaglen Addewid Caerdydd trwy harneisio cyfalaf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Caerdydd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf. Trwy greu cyfleoedd i wella gwaith partneriaeth a darpariaeth ymhellach ar draws y dirwedd ôl-16, ein nod yw cefnogi ein pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi yfory, a darparu cyfoeth o gyfleoedd i'w rhoi mewn cysylltiad â'r byd gwaith. Disgwylir i'r dull hwn wella gwerth am arian trwy optimeiddio effeithlonrwydd systemau, gan ddileu dyblygu a chaniatáu ailfuddsoddiad mewn ystod ehangach o gyfleoedd yn unol â'u dyheadau dysgu ac anghenion y sector cyflogaeth modern.

## SUT?

Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ôl-16 i nodi'r cyfleoedd presennol a gynigir, dyblygu a bylchau yn y cynnig i ddysgwyr.

Cytuno ar egwyddorion traws-ddarparwr ar gyfer cyfleoedd ôl-16 gwell gyda llais y dysgwr yn y ganolfan.

Gweithio tuag at sefydlu cytundeb rhannu data sengl i gefnogi cynllunio cyfleoedd dysgu ôl-16 yn effeithiol.

Datblygu strategaeth ôl-16 i'w darparu ar draws Caerdydd gan gynnig opsiynau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg sy'n hygyrch ac yn deg i bob dysgwr mewn partneriaeth â darparwyr ôl-16 eraill.

Darparu cynnig ôl-16 gweladwy a thryloyw gan sicrhau y gall pobl ifanc archwilio'u hopsiynau'n hawdd ochr yn ochr â chynnig cynhwysfawr o gyfleoedd sector-benodol, gan gynnwys lleoliadau gwaith a phiblinellau talent.

Cynyddu'r ystod o lwybrau cyflogaeth â chymorth i gynyddu potensial i bobl ifanc ag amrywiaeth o heriau a rhwystrau sy'n symud i gyflogaeth â thâl

Cynyddu darpariaeth hybrid a chydweithredu ar draws sefydliadau yn unol â dewisiadau dysgu a gwneud y mwyaf o dalent gan gynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell ar gyfer y gweithlu Ôl-16.

## SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

Llai o bobl ifanc Caerdydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mwy o amrywiaeth o gyrsiau academaidd, galwedigaethol a chyfleoedd prentisiaeth ar gael i ddysgwyr ôl-16, wedi'u darparu'n decach i ddysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Tystiolaeth o gydweithredu llwyddiannus rhwng gweithluoedd sy'n gweithredu ar draws Ôl-16 gyda darpariaeth wedi'i halinio i bwrpas cyffredin.

Mae nifer cynyddol o bobl ifanc yn dweud bod ystod gyffrous o gyfleoedd dysgu deniadol ar gael sy'n cyd-fynd â'u huchelgeisiau ac a fydd yn eu paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn.

Pobl ifanc yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o sectorau blaenoriaeth a sgiliau ar gyfer y gweithle

Cyfraddau cadw uwch o bynciau Safon Uwch Blwyddyn 12 i Flwyddyn 13 yn enwedig mewn meysydd STEM.

Mwy o fenywod ifanc yn dilyn pynciau STEM.

Mae'r sector ôl-16 yn fwy effeithlon ac yn cynnwys mwy o gyrsiau a ddarperir trwy weithio ar y cyd.

Ystod well o gyfleoedd dysgu 14-19 hybrid ar gael yng Nghaerdydd.

Mwy o interniaethau cyflogaeth â chymorth yn cael eu datblygu gyda phartneriaid Addewid Caerdydd.



TEG

# 3. Darparu dosbarthiad mwy cytbwys o leoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg lleol, cynhwysol a hygyrch

## PAM?

Mae newidiadau demograffig sylweddol yn y ddinas sy'n gofyn am addasu darpariaeth a dalgylchoedd yn rheolaidd i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg i blant a phobl ifanc 3-19 oed. Mae cydbwysedd lleoedd a darpariaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cefnogi nifer briodol o leoedd sy'n lleol i ddysgwyr a defnydd effeithiol o adnoddau.

Bydd y strategaeth hon yn gweithio law yn llaw ag 'Addysg Caerdydd: Strategaeth Gydweithredu a Ffedereiddio' i sicrhau cryfder, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ysgolion ledled y ddinas. Bydd Caerdydd yn gweithredu lle mae angen lleihau/ehangu'r ddarpariaeth mewn ardal leol i liniaru'r pwysau ar y system gyfan. Bydd cynigion newid a/neu resymoli trefniadaeth ysgolion yn cael eu hystyried lle na all cydweithredu, ffedereiddio neu ddefnyddio llety effeithlon arall fynd i'r afael yn rhesymol â'r angen i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol.

> *"Mae lleoedd ysgol teg a chynhwysol yn lleol i ble mae dysgwyr yn byw yn hanfodol. Dylai fod tegwch ar draws addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, mae angen mwy o leoedd arbenigol ar draws y ddinas"*
> *(Aelod Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*

## SUT?

Adolygu dalgylchoedd i gefnogi teithio llesol yn unol â nodau cymdogaethau 15 munud.

Lleihau lleoedd gwag drwy ail-bwrpasu a/neu resymoli llety lle bo angen.

Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ac iaith ddeuol o'r blynyddoedd cynnar (gan gynnwys gofal plant) i Ôl-16 drwy eu symud ar hyd y continwwm iaith sy'n cyfateb i dargedau CSCA.

Sicrhau bod o leiaf 50 % o'r lleoedd cynradd ac uwchradd sy'n cael eu darparu drwy'r CDLl yn rhai cyfrwng Cymraeg.

Cyflwyno cynigion i gynyddu nifer a lledaeniad lleoedd ADY cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn briodol yn unol ag anghenion.

Cyflwyno'r nifer briodol o leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy ddatblygu ac ad-drefnu'r CDLl.

Ehangu a chefnogi darpariaeth i hwyrddyfodiaid i gyfrwng Cymraeg ar draws Caerdydd.

## SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

Mae'r system ysgolion yn gweithredu gyda chydbwysedd gwell o leoedd gyda gwarged briodol yn unol â Chanllaw Llywodraeth Cymru.

Llai o wariant yn erbyn costau trafnidiaeth rhagamcanol.

Mwy o deuluoedd yn sicrhau dewisiadau cyntaf.

Llai o deuluoedd Caerdydd yn gwneud ceisiadau am drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Niferoedd uwch yn manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg ac Iaith Ddeuol yn unol â thargedau CSCA.

Llai o sefydliadau addysg anghynaliadwy.



# 4. Cynnig addysg gynhwysol ym mhob ysgol gyda nifer fwy a gwell dosbarthiad o leoedd arbenigol ADY sy'n cyd-fynd â'r angen

## PAM?

Mae Caerdydd yn hollol ymrwymedig i gynhwysiant. Mae sicrhau cynhwysiant yn gofyn am yr ethos cywir, gweithlu medrus ac adnoddau a all gefnogi pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac atal anghenion rhag gwaethygu lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae Caerdydd yn cydnabod bod angen buddsoddi mewn darparu mwy o leoedd mewn ysgolion arbennig, ac ystod ehangach o CAAau sydd wedi'u lleoli'n deg ledled y ddinas i gefnogi pob ysgol brif ffrwd sy'n pontio i gefnogi plant ag anghenion ADY cymhleth ar gyfer plant a phobl ifanc 3-25 oed.

## SUT?

- Gwella'r broses gyfer cofnodi a defnyddio data i gynllunio darpariaethau priodol ar gyfer dysgwyr ag ADY.
- Cyflwyno cynigion i ddarparu lleoedd ysgol arbennig ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol.
- Sefydlu CAAau ar safleoedd ysgolion uwchradd a chydbwyso darpariaeth CAA gynradd ym mhob clwstwr uwchradd i gynyddu lleoedd ADY arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sicrhau defnydd effeithlon o gyfleusterau presennol mewn darpariaeth brif ffrwd i hyrwyddo cynhwysiant a thegwch er mwyn galluogi'r Strategaeth ADY i gael ei chyflawni'n effeithiol yn lleol.
- Ehangu'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) i ehangu ystod oedran, ffocws a chapasiti.
- Cydweithio â phartneriaid (Sefydliadau Addysg Bellach, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) i sefydlu darpariaeth ADY ôl-16 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac ehangu opsiynau ôl-16 lleol ar gyfer dysgwyr ADY.
- Cefnogi'r rhwydwaith o ddarpariaeth amgen i gefnogi darpariaeth effeithiol o leoedd ADY.
- Gwaith partneriaeth gwell gyda darparwyr a busnesau lleol ar y lefel ôl-16 i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc a ddarparu llwybrau priodol ar gyfer annibyniaeth a chyflogaeth mewn oedolaeth.

> *"Rydyn ni i gyd yn dysgu bob dydd ble bynnag ydyn ni ac mae angen math o ddysgu addas ar bob unigolyn. Er mwyn iddo fod mor effeithiol â phosibl, mae angen i ddysgu fod yn rhywbeth y gallwn ni ei fwynhau ac mae angen i ni fod yn chwilfrydig, mae hyn wedyn yn gwneud i ni fod eisiau dysgu mwy."*
> *(Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*



## SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

| |
|---|
| Gall nifer gynyddol o ddysgwyr 3-25 oed sydd â lefelau uchel o ADY gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol yng Nghaerdydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, sy'n cyd-fynd â'r angen. |
| Mae nifer gynyddol o ddysgwyr na ellir diwallu eu hanghenion mewn addysg brif ffrwd am y tro yn gallu parhau â'u dysgu yn yr UCD. |
| Mae nifer uwch o weithlu addysg Caerdydd yn cadarnhau eu bod wedi'u hyfforddi ac yn hyderus wrth weithredu technegau addysgu ADY effeithiol er mwyn sicrhau cymaint o gynhwysiant â phosibl yn y system addysg. |
| Mae gweithlu addysg Caerdydd wedi'i hyfforddi'n dda ac yn gweithredu arfer cynhwysol yn gyson ar draws y ddinas |
| Mae canran is o ddysgwyr yn cael eu gwahardd o addysg. |
| Llai o ddysgwyr wedi'u cofrestru fel 'Ddim mewn Darpariaeth'. |
| Mae angen cymorth addysgu cymunedol Dysgu@Severn (yn cymryd lle darpariaeth arbenigol) ar lai o ddysgwyr. |
| Llai o wariant ar gostau trafnidiaeth i ddysgwyr ADY o gymharu â rhagamcanion 2024. |
| Llai o wariant ar brynu lleoedd ADY yn y sector annibynnol ac mewn awdurdodau cyfagos o gymharu â rhagamcanion 2024. |
| Llai o amser ar gyfer derbyniadau sy'n gysylltiedig â gwaharddiadau a/neu ADY. |
| Lleoedd ysgol arbennig cyfrwng Cymraeg ar gael, yn ogystal â mwy o leoedd CAA. |

# 5. Seilwaith addysg effeithiol, effeithlon a hyblyg sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn ogystal â llesiant disgyblion a staff

## PAM?

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i system addysg effeithlon ac effeithiol sy'n cael ei darparu o fewn amgylcheddau dysgu diogel, cynnes a all wrthsefyll y tywydd. Fodd bynnag, mae ei hystâd addysg helaeth mewn cyflwr sy'n gwneud defnydd mawr o ynni sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol trwy adnewyddu neu ddisodli.

Bydd buddsoddiad ysgolion yn cael ei flaenoriaethu gan ddefnyddio data perthnasol o fewn rhaglen dreigl. Pan ystyrir unrhyw fuddsoddiad sylweddol, bydd yn rhaid i ysgolion ymrwymo i'r canlynol:

- Datblygu gweledigaeth ysgolion sy'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, ac egwyddorion Cryfach, Tecach, Gwyrddach Caerdydd.
- Mabwysiadu egwyddorion Ysgolion Bro.
- Cydweithio i sicrhau'r cyfleoedd dysgu gorau posibl ar draws nifer fwy o ysgolion.

## SUT?

- Gwaredu cyfleusterau ysgol cyflwr D a lleihau nifer yr ysgolion cyflwr C.
- Darparu amgylcheddau dysgu diogel, cynnes a all wrthsefyll y tywydd.
- Dylunio ysgolion/cyfleusterau newydd i wella profiad dysgwyr gydag amgylcheddau hyblyg ac amrywiol yn unol ag Egwyddorion Dylunio Caerdydd.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgorffori lleoedd a gofodau mewn ysgolion i wella cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol a lles cadarnhaol.
- Darparu amgylcheddau dysgu a alluogir gan dechnoleg gyda seilwaith a dyfeisiau i alluogi defnydd integredig sy'n gyson â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cyflawni gostyngiad carbon drwy'r Addewid Ysgolion Un Blaned a mentrau 'buddsoddi i arbed'.
- Archwilio Dulliau Adeiladu Modern (DAM) a dylunio optimeiddiedig.
- Gweithio gyda phartneriaid perthnasol fel Addewid Caerdydd, tîm Symud Mwy Bwyta'n Dda, sefydliadau llywodraethu chwaraeon, darparwyr lleol, Storey Arms, a Champws Agored Metropolitan Caerdydd i sicrhau ymgysylltiad a gwerth gorau.



## SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

| |
|---|
| Cyfleusterau ysgol Cyflwr D wedi’u disodli, a gostyngiad yn nifer yr ysgolion cyflwr C. |
| Mae'r holl amgylcheddau dysgu yn bodloni dangosyddion diogel, cynnes a all wrthsefyll y tywydd |
| Mae arolygon lles yn dangos bod dysgwyr a staff yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu parchu yn eu hamgylchedd. |
| Mae dysgwyr Caerdydd yn dangos sgiliau cymhwysedd digidol gwell trwy brofiad o ystod ehangach o ddyfeisiau digidol. |
| Buddsoddiad mewn cyfleusterau ysgolion yn arwain at adborth cadarnhaol mewn arolygon ôl-feddiannu rhanddeiliaid. |
| Mae buddsoddiadau lleihau carbon yn yr ystâd addysg yn gwneud cyfraniad mesuradwy at gyflawni ymrwymiadau Un Blaned Caerdydd. |

*“Dylai pob ysgol newydd a gaiff ei hadeiladu yng Nghaerdydd yn y dyfodol fod yn Garbon Sero-Net o ran sut maen nhw’n cael eu hadeiladu a sut maen nhw’n cael eu gweithredu. Dylai pob adeilad newydd hefyd gael ei ddiogelu yn y dyfodol fel y gall addasu a newid os oes angen.”*

*(Aelod Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*

## CYNALIADWY

# 6. Meithrin ymagwedd Ysgolion Bro sy'n ehangu cyfleoedd i'n plant, pobl ifanc, teuluoedd a'n cymunedau ehangach

### PAM?

Bwriedir i ysgolion Caerdydd weithredu fel amgylcheddau dysgu amlswyddogaethol sy'n cofleidio'r amrywiaeth o leoedd, syniadau a phobl y mae'r byd modern yn ei mynnu. Mae hyn yn cynnwys yr angen am hyblygrwydd o ran gofod, amser, pobl a thechnoleg sy'n gweithio heddiw ac y gellir ei haddasu'n hawdd i'r dyfodol.

Yr uchelgais yw datblygu a gweithredu strategaeth gynhwysfawr ar draws y ddinas ar gyfer Ysgolion Bro, gan bwysleisio hygyrchedd a defnydd gwell o gyfleusterau ysgolion, partneriaethau cymunedol cadarn, diffiniad clir, llwybrau cyllido, a chanllawiau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd, cymunedau ac asiantaethau partner eraill.

### SUT?

Defnyddio arfer gorau o gynlluniau peilot Ysgolion Bro presennol yr Arc Ddeheuol a chydweithrediadau/ffederasiynau ledled Caerdydd.

Datblygu strategaeth ar gyfer Ysgolion Bro.

Treialu model Cymorth Cynnar i wella hygyrchedd gwasanaethau i rieni a sicrhau cysondeb mewn trothwyon atgyfeirio Amddiffyn Plant.

Sicrhau a dyrannu cyllid grant i gefnogi ardaloedd wedi'u targedu a chydlynu gweithgareddau Ysgolion Bro.

Adeiladu cyfleusterau newydd ac ailbwrpasu rhai presennol i hwyluso partneriaethau amlasiantaethol, gan gynnwys darpariaeth ieuenctid, cydleoli gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, dysgu i oedolion, a gofal plant Dechrau'n Deg a/neu Strategaeth Gofal Plant ar-y-safle ychwanegol sy'n cyd-fynd ag anghenion y gymuned.

Meithrin cydweithrediadau â phartneriaid fel Addewid Caerdydd, tîm Symud Mwy Bwyta'n Dda, cyrff llywodraethu chwaraeon, a darparwyr lleol i archwilio cyfleoedd ar gyfer opsiynau Ysgolion Bro gwell.

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu gwerth cymdeithasol gwell ar ffurf dysgu a/neu gyflogaeth leol o fewn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â phrosiectau buddsoddi Addysg yng Nghaerdydd.

Sicrhau gwell mynediad cymunedol i safleoedd ysgol ar draws ardal ehangach trwy gynyddu cydweithrediadau a ffederasiynau yng Nghaerdydd.



## SUT OLWG FYDD AR LWYDDIANT?

| |
|---|
| Mae ysgolion newydd a adeiladwyd o 2020 ymlaen yn gweithredu'n llawn fel Ysgolion Bro. |
| Pob ysgol i hwyluso mynediad gwell i gyfleusterau ysgol mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a/neu sefydliadau partner sy'n agored i ddysgwyr, teuluoedd ac aelodau o'r gymuned leol. |
| Llety ysgol dros ben wedi'i ailbwrpasu i gefnogi darpariaeth partneriaeth amlasiantaethol sy'n cyd-fynd ag anghenion/dyheadau cymunedol e.e. darpariaeth ieuenctid o fewn cyfleusterau ysgol, cydleoli partneriaid (Iechyd, Gwasanaethau Plant, Dysgu Oedolion ac ati), gofal plant sy'n gysylltiedig â Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant ar neu ger safleoedd ysgol. |

> *“ ‘Dyw dysgu ddim yn dechrau yn yr ysgol ac yn gorffen pan mae myfyrwyr yn gadael... gallai a dylai cyfleusterau fel caeau chwarae, ystafelloedd dosbarth a neuaddau gael eu defnyddio ar gyfer pob math o ddigwyddiadau cymunedol... fel adeiladau cyhoeddus, gall ysgolion gynnig llawer mwy o werth ar gyfer ein cymunedau cyfan’. ”*
>
> *(Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd)*

# Buddsoddiad sy'n Cyd-fynd â'r Angen a Nodwyd

Mae system ysgolion Caerdydd a'r asedau oddi mewn iddi yn cael eu hadolygu'n gyson fel rhan o'n dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf Fframwaith Ysgolion a Safonau.


Mae newid i drefniadaeth ysgolion a/neu gyfleusterau addysg a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf yn dibynnu ar y Cyngor yn gweithredu strategaeth effeithiol sy'n nodi'n glir y ffynonellau cyllid cyfalaf a refeniw, boed yn fewnol neu allanol. Byddai hyn yn cynnwys amseriad llifoedd arian ac atebolrwydd swyddogion ar sicrhau bod ffynonellau cyllid yn cael eu gwireddu. Dylai'r strategaeth ariannu hefyd nodi risgiau pe na bai ffynonellau ariannu yn cael eu gwireddu ac unrhyw gamau lliniaru sy'n ofynnol.

Mae adnoddau ariannol cyfyngedig yn golygu bod angen defnyddio blaenoriaeth ariannu drwy gymhwyso egwyddorion buddsoddi a strategaeth ariannu fel y nodir yn Atodiad 1 – Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Caerdydd. Bydd hyn yn cynnwys dangos bod buddsoddiad yn fforddiadwy ar yr adeg gweithredu ac y bydd yn cyfrannu at system fwy effeithlon sy'n gynaliadwy yn y dyfodol.

Bydd cynigion a phrosiectau buddsoddi'n dibynnu'n rhannol ar y penderfyniadau a wneir yn y camau gweithredu cychwynnol. Bydd hyn yn golygu bod angen penderfyniadau beiddgar/ystyriol i resymoli nifer y sefydliadau a safleoedd addysg i leihau gwarged. Gallai ffynonellau cyllid eraill gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i:


- Gyllid cyfalaf corfforaethol drwy werthu asedau corfforaethol eraill (gan gynnwys safleoedd ysgol dros ben) neu refeniw a gynhyrchir trwy brydlesu/rhentu y cytunwyd y byddai'n cael ei flaenoriaethu tuag at addysg
- Defnyddio cyllidebau addysg dirprwyedig i ariannu benthyca cyfalaf
- Buddsoddiad preifat gyda darpariaethau cyfreithiol priodol ar waith
- Comisiynu cyfatebol/cyd-gomisiynu sector cyhoeddus/trydydd sector amgen sy'n alinio ag Ysgolion Bro
- Ffynonellau eraill o gyllid grant

Unwaith y bydd cyllid Cyngor priodol wedi ei gytuno i gefnogi'r cyfatebiad sydd ei angen, byddai cynnig yn amodol ar ddatblygu a chyflwyno achos busnes llawn.



# Ymgynghori â rhanddeiliaid a gweithredu

Wrth ddatblygu'r gwaith o gyflawni'r strategaeth a chyflwyno cynigion ar gyfer newid, mae'r Cyngor yn disgwyl cyflwyno cynigion mewn rhaglen fuddsoddi dreigl. Mae penawdau eang y rhaglen wedi'u hamlinellu yn y graffigyn isod:




# Gwerthuso, Adolygu, Myfyrio ac Esblygu

Bydd unrhyw gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth a/neu sy'n gofyn am lefelau uchel o fuddsoddiad yn cael eu hystyried ar yr adeg y cânt eu cyflwyno i gefnogi gweithrediad. Bydd y penderfyniad i fwrw ymlaen â buddsoddiad a darpariaeth prosiect yn dibynnu ar achos busnes llwyddiannus i sicrhau'r cyllid sydd ei angen gydag unrhyw amrywiad yn amodol ar ystyriaeth a chytundeb drwy'r prosesau llywodraethu diffiniedig. Bydd pob un yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn erbyn blaenoriaethau buddsoddi sydd wedi'u halinio â'r strategaeth hon, yr egwyddorion buddsoddi, capasiti buddsoddi corfforaethol ac argaeledd cyllid sydd ar gael sy'n berthnasol i bob cynnig/prosiect.

Nid yw'n ofynnol i raglen ymgynghoriadau ar gynnig a gwaith cyflawni prosiect redeg ar yr un pryd; gallant redeg ochr yn ochr â'r gorchymyn sy'n ddarostyngedig i newid os yw'r broses adolygu a myfyrio yn nodi rheswm priodol dros wneud hynny.

Bydd Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Caerdydd 2024-2033 a'r Rhaglen Asedau Addysg yn darparu'r buddsoddiadau a gynigir dros y naw mlynedd nesaf.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr anghenion sy'n dod i'r amlwg, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhaglen a'r cynigion/prosiectau a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y 12 mis nesaf.










CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

CARDIFF
CAERDYDD